**Cyfarfod Llawn 2002 – 2003 (8)**

**Dydd Iau, 30 Mai 2002**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Ethol Cynrychiolwyr o'r Grwp Llafur i'r Pwyllgor Deddfau**
***NDM1066*** **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4 yn ethol Gwenda Thomas (Llafur), Janice Gregory (Llafur) a Val Lloyd (Llafur) i'r lleoedd gwag ar y Pwyllgor Deddfau yn dilyn ymddiswyddiad Lorraine Barrett (Llafur), Delyth Evans (Llafur) a John Griffiths (Llafur).

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 27

**Derbyniwyd y cynnig.**

**9.06am**
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Atebwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiynau 4 a 5.

**9.28am**
**Cwestiynau ar Gyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Atebwyd y 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 2 a 9 yn ôl.

**9.45am**
**Datganiad: Gwnaeth y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ddatganiad ar Rôl Llyfrgelloedd ac Archifau wrth Hyrwyrddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Dysgu Gydol Oes**

**10.13am**
**Datganiad: Gwnaeth Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ar Gydraddoldeb Hiliol**

**10.41am**
**Pwynt o Drefn**
**Brian Hancock** ar grwpio cwestiynau'r Cynulliad.

**10.43am**
***Cynigiodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad Gynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn ymlaen yr eitem ganlynol:***

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol.**

**10.44am**
**Cymeradwyo'r Cyd-orchymyn *The Plant Protection Products (Amendment) (No 2) Regulations 2002* a'r *Home Grown Cereals Authority (Rate of Levy) Order 2002***
***NNDM1072*** **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Gan weithredu yn unol â Rheolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

Yn cymeradwyo:

1. ***The Plant Protection Products (Amendment) (No.2) Regulations 2002***, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mai 2002; a

2. ***The Home Grown Cereals Authority (Rate of Levy) Order 2002****,* y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mai 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39

**Derbyniwyd y cynnig.**

**10.45am**
**Cynnig Cyfansawdd**
***Ni chynhaliwyd dadl ar y cynnig hwn. Cynhaliwyd pleidlais yn syth.***
***NDM1068*** **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:
**Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2002; a

2. Yn ystyried:
a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) 2002 a

osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mai 2002;
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2002; ac
c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2002.

3. Yn cymeradwyo:
**Rheoliadau Cig (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2002; a

4. Yn ystyried:
a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Cig (Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2002;
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2002; ac
c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2002.

5. Yn cymeradwyo:
**Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2002; a

6. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mai 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O blaid 37; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 37

**Derbyniwyd y cynnig cyfansawdd.**

**10.46am**
**Dirprwyo Swyddogaethau'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2001**
***NDM1069 -*** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2001, neu sy'n dod o dan y ddeddf honno, i Brif Weinidog Cymru, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei wneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidogion priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n berthnasol.

Gellir gweld Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2001/20010015.htm

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35

**Derbyniwyd y cynnig.**

**10.52am**
**Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 7 ar Gynllun Grant Ffyrdd Lleol 2002/03**
***NDM1070* -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 7) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 37; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 37

**Derbyniwyd y cynnig.**

**11.10am**
**Cymeradwyo'r Datganiad ar yr Amserlen o dan Reol Sefydlog 5.1**
***NDM1067* -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi'r *Periodic Timetable Statement* a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mai 2002, o dan Reol Sefydlog 5.1.

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 35

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cynnig i Fabwysiadu'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol -** *Ni symudwyd yr eitem hon.*

**11.12am**
**Dadl Fer: *NDM1071* Janice Gregory (Ogwr): Gwnaed yng Nghymru - Cymunedau a Busnesau yn Cydweithredu**

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.40am**

***************************

**Bydd y Cynulliad yn torri o 3 - 7 Mehefin 2002**

*********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 11 Mehefin 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**MAE’R DDEISEB A ATGYNHYRCHIR ISOD YN YR IAITH Y’I CHYFLWYNWYD I’R CYNULLIAD**

***The following petition was received on the 29th May 2002***

*Petition: Kurdish People Want Justice*

*Principal Petitioner: Mr Cengiz Coskun*

*No of Petitioners: 112*

*Text of Petition:*

*The Kurds, one of the oldest peoples of the Middle East, possessing a rich history thousands of years old, have always faced the repressive and destructive policies of the dominant powers of the region. The presence of the Kurds as a distinct people to this day despite the grim policies they have faced is a show of their remarkable tie to their identity and homeland. It is a forgotten fact of history that the Kurds, along with the Turks, waged a war of independence in the First World War. In 1923, with the signing of the Lausanne treaty, it was the Kurds who were betrayed by Turkey and the other European Governments' party to this historic treaty. The four states who divided the Kurdistan among them after Lausanne subjected the Kurds to a cultural and physical genocide thus forcing many Kurds into exile both internally and externally, predominantly to Europe.*

*The PPK (Kurdistan Workers Party) emerged by resisting against the oppressive policies of the adversaries of the Kurds and began a struggle that was to continue for 24 years. Within this time frame, three unilateral cease-fires were declared followed by the launching of a peace and democracy strategy. In effect, the struggle led by the PKK began to reflect and represent the human rights struggle of the Kurdish people. The Turkish Government could not give a constructive response neither to the various cease-fires nor to the peace and democracy project. Instead, it continued the scorched earth policy against the Kurdish people, destroying Kurdish villages, committing many human rights violations in the process including torture, forced exile, and extra-judicial killings - violations that the European Court of Human Rights*

*continues to find Turkey guilty of.*

*The presence of the PKK on the Terrorist Organisation List disclosed by the European Union on 3 May 2002 was a real disappointment to the Kurdish people who, while facing violations of their fundamental rights in the Middle East did not expect such actions by the bastions of democracy in Europe. The upshot of such a move will make it very difficult for the Kurds to press for their national, political and cultural rights within the principles of peace and democracy.*

*Making it illegal for the Kurdish people to support a party which they believe has led a legitimate struggle within the framework of peace and democracy is a violation of various articles of the European Convention on Human Rights, including Article 8, right to respect for private life, Article 10, freedom of thought and expression, Article 11, freedom of assembly and association, and Article 14, preventing discrimination based on political, national or linguistic differences.*

*The European Union, which recognises cultural, religious and linguistic pluralism in accordance with Article 22 of the convention on Human Rights and Fundamental Freedoms, declares Kurds, who are deprived of these rights, as terrorist and their support to a party who struggles for obtaining these rights.*

*We the undersigned, ask,*

- *In order to right the wrong of the European Union, that PKK and other political parties and organisations who are proponents of peace be removed from the list,*
- *For the formal recognition of the Kurdish peoples national, political, linguistic and cultural rights,*
- *For the removal of the barriers preventing the Kurdish people from peaceful assembly and association nationally,*
- *Support for the efforts to resolve the Kurdish problem within a democratic and political framework,*
- *For the lifting of the death penalty and for efforts to be made in seeking the release of the Kurdish National Leader Abdullah Ocalan.*

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a osodwyd ar 28 Mai 2002**

Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Addysg Bellach (Cymru) 2002 - LD1438
Gorchymyn Addysg (Cyrff sy’n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2002 - LD1439
Gorchymyn Addysg (Cyrff sy’n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2002 - LD1440

**ADRODDIADAU'R PWYLLGOR DEDDFAU**

**Dogfennau a osodwyd ar 28 Mai 2002**

LC466 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1429
LC482 - Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002 - LD1430
LC486 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (*Phytophthora ramorum*) (Cymru) 2002 - LD1431
LC487 - Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002 - LD1432
LC488 - Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2002 - LD1433
LC489 - Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 - LD1434
LC490 - Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Diddymu) (Cymru) 2002 - LD1435
LC491 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1436
LC493 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1437